

# Trefniadau ariannol a masnachol a gwrthdaro rhwng buddiannau

- 1 Yn *Arfer meddygol da*,<sup>1</sup> rydym yn nodi:
  - 77 Rhaid i chi fod yn onest mewn trafodion ariannol a masnachol gyda chleifion, cyflogwyr, yswirwyr a sefydliadau neu unigolion eraill.
  - 78 Ni ddylech ganiatáu i unrhyw fuddiannau sydd gennych i effeithio ar y ffordd y byddwch yn rhagnodi ar gyfer cleifion, yn trin cleifion, yn cyfeirio cleifion neu'n comisiynu gwasanaethau ar gyfer cleifion.
  - 79 Os byddwch yn wynebu gwrthdaro rhwng buddiannau, dylech fod yn agored am y gwrthdaro, gan ddatgan eich budd mewn ffordd ffurfiol, a dylech fod yn barod i beidio bod yn rhan o'r broses benderfynu.
  - 80 Ni ddylech ofyn am na derbyn – wrth gleifion, cydweithwyr neu eraill – unrhyw gymhelliad, rhodd neu letygarwch a allai effeithio neu gael ei weld yn effeithio ar y ffordd yr ydych yn presgripsiynu ar gyfer cleifion, yn trin cleifion, yn cyfeirio cleifion neu'n comisiynu gwasanaethau ar gyfer cleifion. Ni ddylech gynnig y fath gymhellion.
- 2 Yn yr arweiniad hwn, byddwn yn esbonio sut y bydd modd i feddygon weithredu'r egwyddorion hyn. Rhaid i chi fod yn barod i egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd. Dim ond methiant difrifol neu barhaus i ddilyn ein canllawiau sy'n peri risg i ddiogelwch cleifion neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon fydd yn peryglu'ch cofrestriad.
- 3 Rhaid i chi fod yn onest ac yn agored mewn unrhyw drefniadau ariannol gyda chleifion.
- 4 Os byddwch yn codi ffioedd, rhaid i chi:
  - a ddweud wrth gleifion am eich ffioedd cyn ceisio'u caniatâd i driniaeth os oes modd
  - b dweud wrth gleifion os bydd unrhyw ran o'r ffi yn mynd i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.
- 5 Ni ddylech gamfanteisio ar natur agored i niwed cleifion neu eu diffyg gwybodaeth feddygol wrth godi ffioedd am driniaethau a gwasanaethau.

## Trefniadau ariannol a masnachol

### Ffioedd a thaliadau

- 3 Rhaid i chi fod yn onest ac yn agored mewn unrhyw drefniadau ariannol gyda chleifion.

## Anrhegion, cymynroddion a rhoddion

---

- 6 Ni ddylech annog cleifion i roi, benthyca neu gymynnu arian neu anrhegion y byddant yn cynnig budd uniongyrchol neu anuniongyrchol i chi.
- 7 Mae modd i chi dderbyn anrhegion na ofynnwyd amdanynt gan gleifion neu eu perthnasau ar yr amod
  - a na fydd hyn yn effeithio ar neu'n ymddangos fel pe bai'n effeithio ar y ffordd y byddwch yn presgripsiynu ar gyfer cleifion, yn cynghori cleifion, yn trin cleifion, yn cyfeirio cleifion neu'n comisiynu gwasanaethau ar gyfer cleifion.
  - b na fyddwch wedi defnyddio'ch dylanwad i roi pwysau ar neu i berswadio cleifion neu eu perthnasau i gynnig anrhegion i chi.<sup>2</sup>
- 8 Fodd bynnag, os byddwch yn cael anrheg neu gymynrodd gan glaf neu eu perthynas, dylech ystyried y niwed posibl y gallai hyn ei achosi i ymddiriedaeth eich cleifion ynddoch chi ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn. Dylech wrthod anrhegion neu gymynroddion pan allai'r rhain gael eu hystyried fel achos o gamddefnyddio ymddiriedaeth.
- 9 Ni ddylech roi pwysau ar gleifion neu eu teuluoedd i roi rhoddion i bobl neu sefydliadau eraill.

## Gwrthdaro rhwng buddiannau

---

- 10 Mae ymddiriedaeth rhyngoch chi a'ch cleifion yn hanfodol er mwyn cynnal perthnasoedd proffesiynol effeithiol, ac mae'n rhaid i'ch ymddygiad chi gyfiawnhau ymddiriedaeth eich cleifion ynddoch chi ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn. Gallai ymddiriedaeth gael ei niweidio os bydd eich buddiannau yn effeithio ar eich barn broffesiynol, neu os bydd yn ymddangos eu bod yn effeithio ar eich barn broffesiynol. Gallai gwrthdaro rhwng buddiannau

ddigwydd mewn amrediad o sefyllfaoedd. Nid ydynt wedi cael eu cyfyngu i fuddiannau ariannol, ac fe allent gynnwys buddiannau personol eraill.

- 11 Nid oes modd osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau bob amser, a bydd y cwestiwn ynghylch a yw gwrthdaro penodol yn peri pryder difrifol yn dibynnu ar yr amgylchiadau a pha gamau a gymrwyd er mwyn lleihau'r risgiau gymaint ag y bo modd, er enghraifft, trwy ddilyn gweithdrefnau sefydledig ynghylch datgan a rheoli gwrthdaro.
- 12 Dylech:
  - a ddefnyddio'ch barn broffesiynol er mwyn nodi sefyllfaoedd pan fydd gwrthdaro rhwng buddiannau yn codi
  - b osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau pryd bynnag y bo modd
  - c datgan am unrhyw wrthdaro i unrhyw un y byddant yn cael eu heffeithio, gan wneud hynny mewn ffordd ffurfiol ac mor gynnar ag y bo modd, yn unol â pholisïau eich cyflogwr neu'r sefydliad sy'n contractio eich gwasanaethau
  - d cael cyngor ynghylch goblygiadau unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau
  - e sicrhau nad yw'r gwrthdaro yn effeithio ar eich penderfyniadau ynghylch gofal claf.
- 13 Os bydd gennych chi unrhyw amheuaeth ynghylch a oes gwrthdaro rhwng buddiannau yn bodoli, dylech weithredu yn yr un modd ag y byddech yn gweithredu os byddai gwrthdaro rhwng buddiannau yn bodoli.

## Penderfyniadau ynghylch gofal cleifion

**14** Os bydd gennych chi neu rywun sy'n agos i chi, neu'ch cyflogwr, fudd ariannol neu fasnachol mewn sefydliad sy'n darparu gofal iechyd, megis:

- cwmni dyfeisiau meddygol neu fferyllol
- cartref nyrsio neu gartref gofal
- feryllfa

ni ddylech ganiatáu i'r budd hwnnw effeithio ar y ffordd y byddwch yn presgripsiynu ar gyfer cleifion, yn trin cleifion, yn cyfeirio cleifion neu'n comisiynu gwasanaethau ar gyfer cleifion. Rhaid i chi fod yn agored ac yn onest gyda'ch cleifion ynghylch unrhyw fuddiannau o'r fath y byddai modd ystyried eu bod yn effeithio ar y ffordd y byddwch yn presgripsiynu ar gyfer, yn cynghori, yn trin, yn cyfeirio neu'n comisiynu gwasanaethau ar eu cyfer.

**15** Ni ddylech geisio dylanwadu ar y gwasanaethau gofal iechyd a ddewisir gan gleifion er mwyn cynnig budd i chi, rhywun sy'n agos atoch neu'ch cyflogwr. Os yw'ch sefydliad yn rhoi meddyginiaethau ar bresgripsiwn, ni ddylech ganiatáu i'ch buddiannau ariannol neu fasnachol effeithio ar y ffordd y byddwch yn presgripsiynu.

**16** Ni ddylech ofyn am na derbyn unrhyw gymhelliad, anrheg neu letygarwch a allai effeithio ar neu ymddangos fel pe bai'n effeithio ar y ffordd y byddwch yn presgripsiynu ar gyfer cleifion, yn trin cleifion, yn cyfeirio cleifion neu'n comisiynu gwasanaethau ar gyfer cleifion. Ni ddylech gynnig cymhellion o'r fath i gydweithwyr.<sup>3</sup>

**17** Os ydych yn bwriadu cyfeirio claf am archwiliad, triniaeth neu ofal mewn sefydliad y mae gennych chi fudd ariannol neu fasnachol ynddo,

rhaid i chi ddweud wrth y claf am y budd hwnnw, gan nodi hyn yng nghofnod meddygol y claf.

**18** Pan na fydd modd osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau ynghylch y gofal ar gyfer claf penodol, dylech gofnodi hyn yng nghofnod meddygol y claf.

## Comisiynu gwasanaethau

**19** Gall y broses o gomisiynu gwasanaethau o fewn GIG arwain at wrthdaro rhwng buddiannau ar gyfer y meddygon unigol. Os ydych yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau neu os ydych yn cael cyswllt gyda threfniadau o'r fath, rhaid i chi:

- a deimlo'n fodlon bod yr holl benderfyniadau a wneir yn deg, yn dryloyw ac yn cydymffurfio â'r gyfraith
- b sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r arweiniad a'r codau ymarfer<sup>4</sup> diweddaraf sy'n llywodraethu'r broses o gomisiynu gwasanaethau yn y man lle'r ydych yn gweithio, a'u dilyn
- c datgelu unrhyw fudd ariannol sydd gennych chi, neu rywun sy'n agos atoch, neu'ch cyflogwr, mewn cwmni sy'n darparu, yn unol â'r trefniadau llywodraethu yn yr awdurdodaeth lle'r ydych yn gweithio
- d cymryd camau i reoli unrhyw wrthdaro rhwng eich dyletswyddau fel meddyg a'ch cyfrifoldebau comisiynu, er enghraifft trwy beidio bod yn rhan o'r broses benderfynu ac unrhyw drefniadau monitro dilynol.

## Cymhellion

---

### Taliadau targed a chymhellion ariannol gwasanaeth iechyd

- 20** Mae mesurau iechyd ataliol, megis imiwneiddio plant a sgrinio am ganser ceg y groth, yn cynnig manteision amlwg i gleifion unigol a chymdeithas, yn yr un modd â chynlluniau monitro iechyd megis y rhai a anogir trwy gyfrwng y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau. Defnyddir taliadau targed er mwyn annog meddygon teulu i gynyddu nifer y cleifion dan sylw. Er y byddwch yn dymuno argymell triniaethau a gwahodd cleifion i gymryd rhan mewn asesiadau efallai, ni ddylech roi pwysau ar gleifion i gymryd rhan oherwydd y manteision ariannol i chi.
- 21** Mae gan gymhellion ariannol gwasanaeth iechyd a chynlluniau tebyg er mwyn gwella'r defnydd cost-effeithiol o feddyginiaethau, rôl dilys wrth helpu i wneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael. Yn ogystal, mae modd i gynlluniau o'r fath gynnig budd i gymuned ehangach y cleifion. Ond mae'n rhaid i chi ystyried diogelwch ac anghenion y claf unigol yr ydych yn presgripsiynu ar eu cyfer. Yn arbennig, dylech gymryd y camau canlynol.
- a** Ystyried y manteision a'r risgiau i'r claf pryd bynnag y byddwch yn ystyried newid meddyginiaeth y claf am resymau'n ymwneud â'r gost. Un risg, er enghraifft, yw bod modd i arfer cleifion wrth gymryd meddyginiaethau fel y dylent gael ei niweidio trwy eu newid yn aml.
  - b** Hysbysu cleifion cyn newid meddyginiaeth a dweud wrthynt sut y dylid cymryd y feddyginiaeth.
  - c** Ystyried pa wybodaeth, esboniad a chymorth y gallai bod angen i glaf ei chael os bydd sgil-effaith newydd ac amheus o'u meddyginiaeth yn dod i'r amlwg.

- 22** Dylech ddilyn canllawiau clinigol a mynegi pryderon<sup>5</sup> os bydd gennych chi reswm da dros gredu bod diogelwch cleifion neu y gallai diogelwch cleifion fod yn cael ei beryglu mewn ffordd ddifrifol gan gymhellion ariannol a chynlluniau tebyg.

### Perthnasoedd gyda'r diwydiant fferyllol

---

- 23** Bydd sawl ffurf yn bodoli o ran perthnasoedd meddygon gyda'r diwydiant fferyllol, y gallai rhai ohonynt gael eu hystyried fel pe baent yn dylanwadu ar y ffordd y bydd meddygon yn presgripsiynu meddyginiaethau. Dylech:
- a** ddilyn yr arweiniad yng *Nghanllaw Glas* yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd
  - b** ystyried cyngor Awdurdod Cod Ymarfer Meddyginiaethau Presgripsiwn (PMCPA).
- 24** Mae PMCPA yn gyfrifol am weinyddu *Cod Ymarfer ar gyfer y Diwydiant Fferyllol* Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI), sy'n sôn am gymhellion, lletygarwch a materion eraill.<sup>6</sup>

### Argymell gwasanaethau y tu hwnt i ofal iechyd

---

- 25** Bydd rhai sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau y tu hwnt i ofal iechyd (megis cwmnïau yswiriant neu gyfreithwyr) yn cynnal cynlluniau lle y cynigir taliad yn unol â nifer y cwsmeriaid sy'n cael eu cyfeirio. Yn gyffredinol, ni fydd meddygon yn meddu ar yr arbenigedd proffesiynol i wneud argymhellion neu i gyfeirio at sefydliad penodol; bydd eu prif fudd mewn cynlluniau o'r fath yn fudd ariannol. Ni ddylech dderbyn ffioedd am gyfeirio cleifion at sefydliadau neu unigolion penodol neu am argymell eu gwasanaethau.

## Cyfeiriadau

---

- 1 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da Llundain*, CMC.
- 2 Yn y bedair wlad yn y DU, mae achosion lle y bydd meddygon teulu yn derbyn anrhegion yn destun rheoleiddio statudol. Mae rheoliadau contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn nodi y dylid cadw cofrestr o anrhegion gan gleifion neu eu perthnasau, y maent yn werth £100 neu fwy, oni bai nad yw'r anrheg yn gysylltiedig gyda'r broses o ddarparu gwasanaethau. Dylai'r gofrestr anrhegion gynnwys enw'r rhoddwr a natur yr anrheg. Mae ymddiriedolaethau GIG yn pennu eu polisiau eu hunain ynghylch anrhegion.
- 3 Caiff y broses o hyrwyddo meddyginiaethau ei rheoli gan gyfuniad o fesurau statudol (gyda chosbau troseddol a sifil) y maent yn cael eu gorfodi gan Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd a gweithgarwch hunan-reoleiddio: mae'r Awdurdod Cod Ymarfer Meddyginiaethau Presgripsiwn yn gyfrifol am weinyddu *Cod Ymarfer Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain*. Yn ogystal, gweler *Cod Ymarfer Busnes Cymdeithas Diwydiannau Gofal Iechyd Prydain* ar gyfer ei haelodau yn y sector technoleg feddygol.
- 4 Gweler *Towards establishment: Creating responsible and accountable CCGs* ([www.commissioningboard.nhs.uk/resources/resources-for-ccgs](http://www.commissioningboard.nhs.uk/resources/resources-for-ccgs)). Yn ogystal, trowch at [www.comissioningboard.nhs.uk](http://www.comissioningboard.nhs.uk).
- 5 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Mynegi pryderon ynghylch diogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch Llundain*, CMC.
- 6 Gweler *Cod Ymarfer ar gyfer y Diwydiant Fferyllol ABPI a Nodiadau Arweiniad ar gyfer Gweithwyr Iechyd Proffesiynol* PMCPA.